**Pwyllgor Datblygu Economaidd** **EDC 06-01**
**(p2)**

**Dyddiad:** 4 Ebrill 2001
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Teitl:** Y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth: Y Cynllun Cyflawni

**Diben**

1. Diben y papur hwn yw sôn am y gwaith sy’n mynd rhagddo ar hyn o bryd ar elfennau allweddol o’r Cynllun Cyflawni Entrepreneuriaeth.

**Cefndir: Cynllun Gweithredu a Chynllun Cyflawni**

2. Roedd paratoi’r Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth yn un o’r mentrau allweddol a gyhoeddwyd yn "Ffordd i Ffyniant" ym mis Gorffennaf 1998. Lluniodd y Grwp Llywio dan arweiniad y sector preifat Gynllun Gweithredu a gymeradwywyd mewn egwyddor gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 29 Mawrth 2000.

3. Cytunodd y pwyllgor y dylid llunio Cynllun Cyflawni’n nodi’r prif gamau sydd eu hangen er mwyn hyrwyddo entrepreneuriaeth a menter ledled Cymru, gyda thargedau a chanlyniadau manwl, yr asiantaethau a fydd yn arwain y gwaith a’r costau. Lluniwyd y cynllun gan y Grwp Llywio ac fe’i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 1 Tachwedd 2000.

4. Mae Panel Cyflawni’n cael eiwedi cael ei ail-lunio ar hyn o bryd o’r Grwp Llywio er mwyn sicrhau y cymerir camau ymarferol yn ddi-oed, er bod Cadeirydd y Panel (David Latham) wedi ymddiswyddo’n ddiweddar oherwydd ei iechyd. Mae Awdurdod Datblygu Cymru’n cydlynu gwaith y Panel ac yn cynnig cymorth gweithredol i alluogi’r gwaith hwnnw i fynd rhagddo.

5. Mae tair her allweddol y Cynllun Gweithredu bellach yn chwe cham allweddol yn y Cynllun Cyflawni:

- Hyrwyddo Diwylliant Entrepreneuraidd (Cam Allweddol 1, Llinyn 1)
- Entrepreneuriaeth wrth Ddatblygu Gyrfa (Cam Allweddol 2, Llinyn 1)
- Entrepreneuriaeth mewn Addysg Gynradd ac Uwchradd (Cam Allweddol 2, Llinyn 2)
- Rhaglenni Menter mewn Addysg Bellach ac Uwch (Cam Allweddol 2, Llinyn 3)
- Blas ar Fenter (Cam Allweddol 3, Llinyn 1)
- Entrepreneuriaeth yn yr Economi Gymdeithasol (Cam Allweddol 4, Llinyn 1)
- Strategaeth Cyfradd Cychwyn Busnesau Cymru (Cam Allweddol 5, Llinyn 1)
- Entrepreneuriaeth mewn Busnesau Twf (Cam Allweddol 6, Llinyn 1)

Tynnir sylw'r Pwyllgor at Atodiad 1 sy'n nodi'r prosiectau perthnasol a gweithgareddau cysylltiedig eraill sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar gyfer pob Cam Allweddol. Gwneir trefniadau i sicrhau bod y Pwyllgor yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf tua phob chwe mis.

6. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt yn y Cynulliad Cenedlaethol rhwng y grwpiau allweddol, Addysg a Dysgu Gydol Oes a Datblygu Economaidd, i nodi meysydd lle mae'r gwaith yn ategu amcanion y Cynllun Gweithredu. Er enghraifft, mae ysgolion a sefydliadau addysgol eraill yn bwysig iawn o ran annog diwylliant menter, ac ym meysydd addysg bellach ac uwch mae sawl coleg a phrifysgol yn cynnal rhaglenni ac yn cynnig cyfleusterau i feithrin syniadau entrepreneuraidd. Bydd nodi'r gweithgareddau hyn yn gam pwysig tuag at ddefnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon a nodi blaenoriaethau gwario. Rhagwelir y bydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn rhan o'r broses honno.

**Goblygiadau Ariannol**

7. Bydd y rhaglenni a geir yn y Cynllun Cyflawni'n costio cyfanswm o tua £235m dros y 3 blynedd sydd i ddod. O ddefnyddio arian Amcan Un (heb gynnwys bidiau lleol), ynghyd â chyllidebau eraill sydd eisoes ar gael, bydd modd buddsoddi £150m ar hyn o bryd mewn rhaglenni a gweithgareddau a chanddynt botensial gwirioneddol o ran eu perthnasedd a'u heffaith. Bydd y Panel hefyd yn ceisio defnyddio ffynonellau eraill posibl o gyllid, megis Amcan 3.

**Casgliad**

8. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r wybodaeth, sy'n manylu ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i roi hyn oll ar waith.

**Mawrth 2001 Is-adran Polisi Economaidd**